



Mae Cyngor Gwynedd ac Adran Drwyddedu'r Heddlu yn awyddus i glywed gan fusnesau sy'n bwriadu dangos chwaraeon byw yn ystod y pandemig Covid-19

Hoffwn gynnig cyngor a chymorth lle gallwn er mwyn sicrhau bod staff a chwsmeriaid i gyd yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn.

Mae canllawiau presennol yn argymhell na ddylid dangos chwaraeon byw os yw hynny'n annog gweiddi a llafarganu.

Felly, mae angen i fusnesau ystyried y ddarpariaeth benodol hon fel rhan o'u proses asesu risg. Bydd gennych asesiad risg yn ei le eisoes i weithredu yn ystod COVID, yn ymdrin â sut mae eich busnes yn gweithredu'n ddiogel ac yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau yn ôl y gofyn.

Rhaid i ddangos chwaraeon bellach fod yn **ychwanegol at eich** asesiad risg Covid presennol a bydd angen iddo fod yn ysgrifenedig ac yn ei le **CYN** i unrhyw gêm gael ei dangos.

Cyn Dangos Chwaraeon Byw

Ystyriwch y camau isod a bodlonwch eich hun ei bod hi'n ddiogel dangos chwaraeon byw:

- Gosodwch eich sgrin mewn lleoliad i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ymgasglu, cymysgu nac yn sefyll gyda'i gilydd er mwyn ei gwyllo.
Mae gofynion ymbellhau cymdeithasol yn gyfraith a rhaid eu gorfodi.
- Peidiwch â gosod eich sgriniau ar lefel neu mewn lleoliad lle fydd pobl sydd ddim yn gwsmeriaid yn gallu ymgasglu i'w gwyllo.
- Dylai pob busnes sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi'r angen i bobl godi eu lleisiau'n ormodol at y naill a'r llall.
- Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, peidio â chwarae cerddoriaeth na darllediadau allai annog gweiddi, ac os yw'n cael ei chwarae ar lefel sain sy'n gwneud sgwrs arferol yn anodd.
- Efallai y byddwch hefyd eisiau ystyried posteri a chyhoeddiadau ynglŷn â'r rheolau yn eich adeiladau.
- Sicrhewch fod staff yn atgoffa'r holl gwsmeriaid o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ryngweithio â hwy.
- Ymyrrwch yn gynnar os fydd cwsmeriaid yn dechrau mynd yn swnllyd neu ddim yn cadw at y rheolau a osodwyd. Sicrhewch eu bod yn gwybod beth yw

canlyniadau peidio ag ymddwyn yn y modd a nodwyd gennych yn eich asesiad risg.

- Eglurwch fod unrhyw reolau yno i ddiogelu staff a chwsmeriaid i fwynhau'r achlysur o ddangos chwaraeon yn ddiogel ac yn unol â'r gyfraith.
- Nid effeithio ar eich trwydded yn unig fydd unrhyw dor-cyfraith yn ystod y cyfnod hwn ond gallai hefyd effeithio ar iechyd pawb yn y gymuned.
- Gwnewch bopeth o fewn eich gallu i gadw at y rheolau a mwynhau'n ddiogel os gwelwch yn dda.

Anfonwch gopi o'ch asesiad risg i gynorthwyo Swyddogion yn ystod eu hymweliadau yn y cyfnod hwn os gwelwch yn dda.

Anfonwch at gwarchodycyhoedd@gwynedd.llyw.cymru